Ysgolion uwchradd Sir Ddinbych i gymryd rhagofalon ychwanegol yn erbyn Covid-19 Bydd ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych yn cymryd rhagofalon ychwanegol i leihau lledaeniad Covid-19. Oherwydd cynnydd yn nifer yr achosion Covid-19 sy'n gysylltiedig ag ysgolion, bydd dysgwyr a staff yn dilyn mesurau pellach i helpu i reoli lledaeniad y feirws. Mae hyn yn cynnwys parhau i annog disgyblion a staff i gymryd profion LFD wythnosol i helpu i adnabod ac ynysu achosion sydd heb symptomau, gwisgo gorchuddion wyneb gan ddygwyr mewn ysgolion uwchradd, staff ac ymwelwyr mewn ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r dosbarth. Mae trefniadau eraill yn cynnwys lleihau cyswllt agos rhwng staff a dysgwyr megis cadw pellter cymdeithasol a chynlluniau eistedd mewn dosbarthiadau. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa mewn ysgolion cynradd ac yn dilyn cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond nid oes unrhyw fesurau pellach yn cael eu cymryd ar hyn o bryd. Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych: "Gydag achosion o Covid-19 yn cynyddu yn genedlaethol rydym yn cymryd rhagofalon pellach i leihau lledaeniad y feirws mewn ysgolion. "Mae'r mesurau hyn yn cael eu cymryd i leihau'r tarfu ar addysg disgyblion ac i leihau'r effaith ar lefelau staffio ac amddiffyn disgyblion a staff." "Hoffwn sicrhau rhieni a gofalwyr, dysgwyr a staff yn ein hysgolion y byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa a chymryd camau i helpu i gadw ysgolion yn ddiogel pan fo angen." "Ar ran y Cyngor, hoffwn ddiolch i staff ysgolion a rhieni am eu hymroddiad a'u gwaith caled wrth gadw ein disgyblion yn ddiogel a darparu'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt."	**Denbighshire secondary schools to take extra precautions over Covid-19** Secondary schools in Denbighshire are to take extra precautions to reduce the spread of Covid-19. Due to an increase in the number of Covid-19 cases associated with schools, learners and staff will be undertaking further measures to help control the spread of the virus. This includes continuing to encourage pupils and staff to take twice-weekly LFD tests to help identify and isolate asymptomatic cases and the wearing of face coverings by secondary school pupils, staff and visitors in indoor communal areas outside of the classroom. Other arrangements include reducing close interactions between staff and learners such as physical distancing and seating plans in place in classrooms. The Council continues to monitor the situation in primary schools and is following the advice of Public Health Wales, but no further measures are being taken at this time. Cllr Huw Hilditch-Roberts, Denbighshire County Council's Lead Member for Education, Children's Services and Public Engagement, said: "With cases of Covid-19 increasing nationwide we are taking further precautions to reduce the spread of the virus in school settings. "These measures are being taken to reduce disruption to pupils' education and to reduce impact on staffing levels and protect pupils and staff. "I would like to reassure parents and carers, learners and staff at our schools that we will continue to monitor the situation and take action to help keep schools safe when required. "On behalf of the Council, I would to thank school staff and parents for their dedication and hard work in keeping our pupils safe and providing them with the support they need."